Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Targedau bioamrywiaeth ac egwyddorion amgylcheddol

Papur Briffio

Mai 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Targedau bioamrywiaeth ac egwyddorion amgylcheddol
## Papur Briffio

Mai 2025

**Awdur:**
Dr Matthew Sutton a Dr Katy Orford

Mae disgwyl i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant, a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (y Bil) gael ei gyflwyno i'r Senedd yr haf hwn. Disgwylir iddo:

- gyflwyno fframwaith i ddiogelu ac adfer natur, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth;
- cyflwyno egwyddorion amgylcheddol cyffredinol i fod yn sail i benderfyniadau polisi a wneir yn y dyfodol; a
- sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cadw at gyfreithiau amgylcheddol.

Mae'r papur briffio hwn yn ystyried targedau bioamrywiaeth statudol a'r fframwaith bioamrywiaeth newydd arfaethedig, yn ogystal ag egwyddorion amgylcheddol, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Mae'n trafod yr hyn yr ydym yn ei wybod hyd yn hyn yn sgil y cynigion ym Mhapur Gwyn y Bil, ac mae'n cynnig dadansoddiad sy'n cymharu'r sefyllfa ar draws gwledydd eraill y DU er mwyn dysgu gwersi ganddynt ar y materion hyn.

Mae sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol, sef trydedd elfen y Bil, yn cael ei drafod mewn **papur briffio ar wahân gan Ymchwil y Senedd**.

# Cynnwys

**Targedau bioamrywiaeth....................1**

Cefndir....................1

Cynigion Llywodraeth Cymru....................3

Datganiad cenhadaeth cyffredinol....................3

Targedau dros dro a thargedau hirdymor ar gyfer bioamrywiaeth....................4

Amserlenni cyflwyno targedau....................4

Monitro targedau....................5

Strategaeth Adfer Natur....................5

Cynlluniau cyflawni cenedlaethol....................6

Cynlluniau lleol....................6

Targedau bioamrywiaeth yng ngwledydd eraill y DU....................7

Lloegr....................7

Yr Alban....................9

Gogledd Iwerddon....................10

**Egwyddorion amgylcheddol....................11**

Cefndir....................11

Cynigion Cymru....................13

Yr egwyddorion....................13

Canllawiau....................13

Cymhwyso'r egwyddorion a chanllawiau ....... 14

Egwyddorion amgylcheddol yng ngwledydd eraill y DU ....... 14

Lloegr a Gogledd Iwerddon ....... 14

Yr Alban ....... 16

**Cwestiynau wrth graffu ar y Bil ....... 17**

**Deunydd darllen pellach ....... 18**

# Targedau bioamrywiaeth


## Cefndir

Mae bioamrywiaeth fyd-eang, sef yr amrywiaeth o rywogaethau byw, wedi dirywio'n aruthrol yn ystod y degawdau diwethaf**. Mae llawer o wyddonwyr** yn credu ein bod ar drothwy **chweched difodiant mawr y Ddaear** - y cyntaf ers i'r dinosoriaid nad oeddent yn gallu hedfan ddiflannu 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'r enghreifftiau o ddifodiant torfol a ddigwyddodd yn y gorffennol wedi cael eu hachosi gan effeithiau allfydol a gweithgaredd folcanig, ond mae'r argyfwng bioamrywiaeth presennol yn cael ei ysgogi gan weithgareddau dynol. Mae'r newid yn y ffordd yr ydym yn defnyddio'r tir, dirywiad pridd, datgoedwigo, llygredd, gorbysgota, a newid hinsawdd i gyd wedi cyfrannu at leihad yn nifer ac amrywiaeth bywyd gwyllt. Canfu adroddiad y **World Wildlife Fund** a gyhoeddwyd yn 2024 y bu gostyngiad o 73% mewn poblogaethau bywyd gwyllt byd-eang o famaliaid, adar, amffibiaid, ymlusgiaid, a physgod ers 1970.

Yng Nghymru, gwelwyd gostyngiad cyfartalog o 20% ym **mhoblogaeth y rhywogaethau a oedd yn cael eu monitro** rhwng 1994 a 2023, ac mae yn safle 224 o blith 240 o wledydd ar **Fynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth yr Amgueddfa Hanes Natur** – ymhlith y 10% isaf yn y byd.

Mewn ymateb i'r her hon, daeth llywodraethau ledled y byd ynghyd yn **COP15 yn 2022** a chytuno ar gyfres o 23 o dargedau a 4 nod, sy'n cael eu galw'n **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal**. Nod y **Fframwaith** yw sicrhau byd sy'n byw mewn cytgord â natur erbyn 2050, ac atal colli bioamrywiaeth a gwrthdroi hynny erbyn 2030, o'i gymharu â llinell sylfaen 2020 (Ffigur 1). Targed y Fframwaith uchel ei broffil yw **30 erbyn 30** – sef amddiffyn o leiaf 30% o dir, dyfrffyrdd mewndirol, a moroedd erbyn 2030.

**Ffigur 1. Targed y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i atal a gwrthdroi colli byd natur erbyn 2030 a sicrhau adferiad erbyn 2050**




Ffynhonnell: wedi ei addasu o **naturepositive.org**

Mae llywodraethau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU wedi amlinellu eu dull o gyrraedd y 23 targed yn y Fframwaith yn **strategaeth genedlaethol a chynllun gweithredu'r DU ar fioamrywiaeth ar gyfer 2030**.

Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol dros faterion amgylcheddol yng Nghymru, felly cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cyrraedd targedau'r Fframwaith yng Nghymru. Yn 2021 **pleidleisiodd y Senedd o blaid datgan argyfwng natur** a galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau statudol i wrthdroi colli bioamrywiaeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru **amrywiaeth o bolisïau** eisoes sydd â'r nod o adfer bioamrywiaeth, megis y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur**, y **Rhaglen Rhwydweithiau Natur**, y **rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** a'r polisïau sy'n gysylltiedig â ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016***. Fodd bynnag, mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru wedi cael ei feirniadu. Yn ddiweddar, **mynegodd** Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ei

"bryder sylfaenol" ynghylch adnoddau, effeithiolrwydd a gweithrediad polisïau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth **Archwilio Cymru hefyd ganfod** bod llawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi methu â chydymffurfio â'u dyletswyddau bioamrywiaeth presennol (adran 6) o dan ***Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016***.

Yr haf hwn bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei Bil newydd. Fe wnaeth y **Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2024** ar gyfer y Bil Fframwaith Adfer Natur newydd gynnig y dylai'r Bil gynnwys targedau bioamrywiaeth statudol, Strategaeth Adfer Natur lefel uchel, cynlluniau gweithredu penodol, a dull o fonitro cynnydd.

## Cynigion Llywodraeth Cymru

Roedd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys targedau bioamrywiaeth statudol wedi eu cynnwys yn Rhan C o **Bapur Gwyn** y llynedd ar gyfer y Bil. Amlinellwyd cyfres o fesurau bioamrywiaeth, a gaiff eu hadnabod ar y cyd fel 'y Fframwaith Adfer Natur'.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb**. Roedd yr ymateb yn cynnwys cynigion wedi'u haddasu yn seiliedig ar sylwadau rhanddeiliaid. Y cynigion hyn yw'r darlun mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd o'r dull gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru ei ddilyn.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i'r Papur Gwyn yn cefnogi'r cynigion ar gyfer bioamrywiaeth, ond roedd gan rai amheuon ynghylch y dull gweithredu y bwriadwyd ei ddilyn. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl ym mis Gorffennaf 2024** yn trafod rhai o'r pryderon hyn.

Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS (yr Ysgrifennydd Cabinet), fanylion ychwanegol am gynnwys tebygol y Bil yn ei **dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** i wrthdroi colli natur, ac **ymatebodd** i **adroddiad** y Pwyllgor. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn, sylwadau'r rhanddeiliaid, a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny yn cael eu trafod isod.

### Datganiad cenhadaeth cyffredinol

Roedd Fframwaith Adfer Natur y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar un prif darged, a oedd yn adlewyrchu ymrwymiad y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, ac un o gerrig milltir **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, sef:

> Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gyflwyno'r prif darged, fodd bynnag roedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn pryderu na fyddai modd gorfodi'r targed arfaethedig na'i gyrraedd erbyn 2030.

O ganlyniad, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried disodli'r prif darged gyda "datganiad o ddiben neu ddatganiad cenhadaeth" natur-bositif, i ddarparu'r sylfaen ar gyfer y Fframwaith Adfer Natur. **Dywedodd Llywodraeth Cymru** y byddai'n "ymgymryd â rhaglen wedi'i thargedu o ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael adborth ar ein cynnig".

Dywedodd sawl grŵp amgylcheddol **wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** eu bod yn pryderu am y ffaith bod y llywodraeth yn cefnu ar brif darged 2030 a 2050, gan ddweud bod hyn yn esgor ar risg o danseilio pa mor gyflym y cyflawnir y nod.

## Targedau dros dro a thargedau hirdymor ar gyfer bioamrywiaeth

Yn ogystal â'r prif darged, roedd y Papur Gwyn yn cynnig y byddai dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno targedau bioamrywiaeth eilaidd dros dro a thargedau hirdymor drwy reoliadau "cyn gynted ag y bo'n ymarferol" ar ôl i'r Bil gael ei basio. Cynigiwyd y rhain mewn tri maes lefel uchel:

- dosbarthiad rhywogaethau, eu toreithrwydd a'r risg y byddant yn diflannu;
- amddiffyn, rheoli ac adfer cynefinoedd; a
- iechyd, gwytnwch ac adferiad ecosystemau.

Yn gyffredinol, roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn gadarnhaol ynglŷn â'r cynnig i gyflwyno targedau mewn is-ddeddfwriaeth, a'r pynciau lefel uchel sydd wedi eu rhestru, gan awgrymu rhai pynciau ychwanegol. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn cyflwyno dyletswydd ychwanegol ar Weinidogion Cymru "i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd".

## Amserlenni cyflwyno targedau

**Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno targedau o fewn 36 mis i gwblhau'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Gwrthododd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** y dylid gosod targedau i'w blaenoriaethu o fewn 12 mis i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Dadleuodd y byddai "y gwaith o ddatblygu targedau'n cymryd blwyddyn fan leiaf, ac yna bydd angen amser ychwanegol ar gyfer yr amserlen ddeddfwriaethol."

Mae hyn yn golygu y byddai Cymru'n arafach yn cyflwyno targedau bioamrywiaeth o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Yn y ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr a deddfwriaeth ddrafft yr Alban (a drafodir mewn adrannau yn nes ymlaen), rhaid gosod targedau o fewn blwyddyn i'r ddeddfwriaeth dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu **Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth** i lywio datblygiad y targedau.

## Monitro targedau

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y byddai'r trefniadau i fonitro targedau bioamrywiaeth yn cael eu cefnogi drwy ddatblygu dangosyddion i asesu'r cynnydd a wneir. Cynigiwyd y dylid cynnwys trefniadau adrodd yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ei gyhoeddi bob pum mlynedd (**yn fwyaf diweddar yn 2020** gydag **Adroddiad interim yn 2024**). Byddai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno datganiad gerbron y Senedd ynghylch a oedd y targedau bioamrywiaeth wedi'u cyrraedd. Os na fyddai'r targedau'n cael eu cyrraedd, byddai Gweinidogion Cymru yn ceisio cyngor annibynnol ar gamau gweithredu pellach i'w cymryd.

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig i ddefnyddio'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol i adrodd yn erbyn y targedau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mynegodd nifer o randdeiliaid bryder ynghylch cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio lleihau'r trefniadau monitro data ychwanegol a fydd yn ofynnol, gan fod sawl dangosydd o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn rhai sefydledig bellach, gyda data eisoes wedi'u casglu ar lefel ryngwladol neu lefel y DU.

## Strategaeth Adfer Natur

Yn wreiddiol, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid cysylltu targedau bioamrywiaeth â Strategaeth Adfer Natur Cymru sy'n nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer bioamrywiaeth genedlaethol. Cefnogodd cyfran fawr o ymatebion y Papur Gwyn y cynnig hwn i weithredu Strategaeth hirdymor, a ddatblygwyd ar y cyd â

rhanddeiliaid, gan adeiladu ar fecanweithiau presennol.

Yn hytrach na chreu Strategaeth newydd, mae Llywodraeth Cymru bellach yn cynnig cyflwyno Strategaeth Adfer Natur drwy addasu'r Polisi Adnoddau Naturiol presennol. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol sy'n nodi'r prif flaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar draws y llywodraeth.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol i fod i gael ei ddiweddaru bob tymor y Senedd, ond nid yw'r fersiwn gyfredol wedi'i hadolygu ers 2018. **Soniodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** am y ffaith bod rhanddeiliaid amgylcheddol yn credu "mai dim ond ychydig o effaith y mae (y Polisi) wedi'i chael" hyd yn hyn. **Dywed Ysgrifennydd y Cabinet** y dylai adolygiad parhaus o'r Polisi Adnoddau Naturiol gael ei gwblhau erbyn haf 2025, ond gwrthododd argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y dylai adolygiadau yn y dyfodol ddigwydd o fewn 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredinol.

## Cynlluniau cyflawni cenedlaethol

Roedd y Papur Gwyn wedi cynnig y byddai'r targedau bioamrywiaeth a'r Strategaeth Adfer Natur yn cael eu cyflawni drwy Gynllun Gweithredu Adfer Natur. Byddai'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys camau gweithredu penodol, manwl, a byddai'n cael ei gyhoeddi bob pedair blynedd.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried defnyddio cynlluniau cyflawni manwl yn lle Cynllun Gweithredu Adfer Natur cyffredinol. Dywedodd y byddai'n gweithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni targedau bioamrywiaeth ar lefel leol.

Roedd y Cynllun Gweithredu presennol **i fod i gael ei ddiweddaru** cyn **cynhadledd COP16**. **Dywed Ysgrifennydd y Cabinet** ei fod bellach yn disgwyl iddo gael ei lansio yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth Cymru ym mis Hydref 2025.

## Cynlluniau lleol

O dan gynigion gwreiddiol y Papur Gwyn, byddai wedi bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi eu Cynlluniau Adfer Natur Lleol eu hunain, gan amlinellu'r hyn yr oeddent yn ei wneud i gyrraedd y targedau bioamrywiaeth.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r Cynlluniau Lleol, er bod pryderon ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau a'u perthnasedd i awdurdodau cyhoeddus.

Nododd rhai ymatebwyr fod cyfle i adeiladu ar y gwaith cydweithredol presennol rhwng awdurdodau lleol a **Phartneriaethau Natur Lleol** wrth ddatblygu Cynlluniau Adfer Natur Lleol.

Mae Adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau sy'n amlinellu'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, ac i adrodd ar y cynnydd a wneir. Yn ddiweddar, **canfu Archwilio Cymru** nad oedd bron i hanner yr awdurdodau cyhoeddus a gafodd eu hasesu wedi cydymffurfio â'r gofynion hyn, ac nad oedd eu chwarter erioed wedi llunio adroddiad bioamrywiaeth.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, dywedodd Llywodraeth Cymru na fydd yn bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynhyrchu Cynlluniau Adfer Natur Lleol, ond y bydd yn ystyried darparu canllawiau statudol a chefnogaeth fanwl i gryfhau'r ffordd y maent yn cyrraedd targedau ar lefel leol. Cynigiwyd y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gyfrannu at gyrraedd targedau bioamrywiaeth statudol. **Dywedodd Llywodraeth Cymru**, ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith, y bydd yn diweddaru ei chanllawiau Adran 6 ar y dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

## Targedau bioamrywiaeth yng ngwledydd eraill y DU

### Lloegr

Mae ***Deddf Amgylchedd y DU*** a gyhoeddwyd yn 2021 yn darparu'r sail statudol ar gyfer cyflwyno targedau bioamrywiaeth a fframwaith ehangach ar gyfer Lloegr.

Mae Deddf Amgylchedd y DU yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol osod targedau hirdymor mewn rheoliadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol neu fwynhad pobl ohono. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cyfres o dargedau sy'n ymwneud â materion penodol, gan gynnwys:

- targed bioamrywiaeth hirdymor (o leiaf 15 mlynedd yn y dyfodol); a
- targed toreithrwydd rhywogaethau gyda dyddiad targed o 31 Rhagfyr 2030.

Roedd rhaid gosod targedau drafft gerbron Senedd y DU o fewn 12 mis i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

## Targedau tymor hir a thargedau 2030

Mae ***Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Bioamrywiaeth) (Lloegr) 2023*** yn bodloni gofyniad y Ddeddf i gyflwyno'r targedau bioamrywiaeth hirdymor a thargedau o ran toreithrwydd rhywogaethau ar gyfer 2030. Gosodwyd y targedau canlynol:

- atal y dirywiad cyffredinol yn nifer y rhywogaethau erbyn 2030;
- lleihau'r risg o ddifodiant rhywogaethau erbyn 2042, o'i gymharu â'r risg yn 2022;
- adfer neu greu o leiaf 500,000 hectar o gynefinoedd sy'n gyfoethog o ran bywyd gwyllt erbyn 2042;
- cael nifer uwch o rywogaethau yn 2042 nag yn 2022; a
- sicrhau bod nifer y rhywogaethau yn 2042 o leiaf 10% yn uwch nag yn 2030.

Gosodwyd targedau ychwanegol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ***Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Ardaloedd Morol Gwarchodedig) 2023***. Mae'r rhain yn gosod y targedau canlynol ar gyfer 2042, i sicrhau:

- bod o leiaf 70% o nodweddion gwarchodedig mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn cyflwr ffafriol; a
- bod pob nodwedd arall o Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn cyflwr sy'n adfer.

Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu targedau a osodwyd mewn rheoliadau bob 5 mlynedd i benderfynu a fyddent yn gwella'r amgylchedd naturiol yn Lloegr yn sylweddol, a chyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Cynllun gwella'r amgylchedd a thargedau interim

O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd baratoi cynllun gwella'r amgylchedd sy'n amlinellu sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu gwella'r amgylchedd naturiol.

Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r cynllun hwn, a'i adolygu bob 5 mlynedd. Rhaid gosod targedau interim newydd, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth, ym mhob un o'r adolygiadau hyn. **Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o'r cynllun gwella'r amgylchedd** yn 2023, a gosodwyd y targedau bioamrywiaeth

interim canlynol i'w cyflawni erbyn 31 Ionawr 2028:

- cynyddu brigdwf a choetir ar gyfradd o 0.26% o arwynebedd y tir;
- sicrhau bod asesiadau cyfredol ar gael o gyflwr pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- 50% o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar y trywydd iawn i fod mewn cyflwr ffafriol; a
- 48% o nodweddion dynodedig mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig i fod mewn cyflwr ffafriol, a'r gweddill mewn cyflwr adferol.

Yn yr adolygiad o'r cynllun gwella'r amgylchedd, gosodwyd targedau interim ar draws amrywiaeth o bynciau eraill hefyd, gan gynnwys aer glân, dŵr a rheoli adnoddau. Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi **dweud ei bod yn bwriadu diweddaru'r** cynllun yn 2025.

Mae **briff ymchwil Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddull Llywodraeth y DU o ymdrin â bioamrywiaeth yn Lloegr.

## Yr Alban

Yn **Strategaeth Bioamrywiaeth yr Alban hyd 2045**, mae Llywodraeth yr Alban yn gosod yr uchelgais i'r Alban fod yn 'Bleidiol i Natur' ('*nature positive*') erbyn 2030, ac i fod wedi adfer ac adfywio bioamrywiaeth ar draws tir, dŵr croyw a moroedd yr Alban erbyn 2045.

Rhaid i Lywodraeth yr Alban adrodd ar y cynnydd a wneir tuag at uchelgeisiau'r strategaeth bob tair blynedd o dan ***Ddeddf Cadwraeth Natur (Yr Alban) 2004***. Mae hefyd yn cyhoeddi cynlluniau cyflawni bioamrywiaeth sy'n amlinellu'r camau gweithredu penodol at ddibenion cyflawni amcanion y strategaeth, ac yn adolygu'r rhain bob chwe blynedd. Mae'r **cynllun cyflawni cyntaf** yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2024 a 2030.

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban **gynllun buddsoddi ar gyfer bioamrywiaeth ac addasu i'r hinsawdd** sy'n manylu ar fecanweithiau ariannol i hwyluso adferiad natur, gan gefnogi'r Strategaeth Bioamrywiaeth.

Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno targedau bioamrywiaeth drwy ei ***Bil Amgylchedd Naturiol (Yr Alban)***. Cyflwynwyd y Bil hwn ar 19 Chwefror 2025 ac mae'n destun proses graffu ar hyn o bryd yng Nghyfnod 1 Senedd yr Alban.

Byddai bil yr Alban yn rhoi pwerau i Weinidogion yr Alban gyhoeddi rheoliadau sy'n gosod targedau ar:

- gyflwr neu faint unrhyw gynefin;
- statws rhywogaethau sydd dan fygythiad;
- amodau amgylcheddol ar gyfer adfywio natur;
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag adfer neu adfywio bioamrywiaeth y maent yn ei ystyried yn briodol.

Mae'r Bil yn dweud ei bod rhaid i Weinidogion yr Alban osod o leiaf un targed ym mhob un o'r tri maes cyntaf a restrir uchod. Yn debyg i Loegr, byddai'n ofynnol i Weinidogion yr Alban osod y targedau hyn gerbron Senedd yr Alban o fewn 12 mis i'r Ddeddf ddod i rym. Byddai dyletswydd arnynt i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyrraedd.

Er mwyn mesur y cynnydd, byddai'n ofynnol i Weinidogion yr Alban baratoi adroddiad ar y cynnydd tuag at gyrraedd targedau bob 3 blynedd o leiaf, ac adolygu'r targedau bob 10 mlynedd o leiaf. Yn wahanol i ddeddf Lloegr, nid yw bil yr Alban yn cynnwys rhwymedigaeth i gyflwyno targed statudol ar gyfer 2030.

## Gogledd Iwerddon

Cyhoeddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ei **chynllun gwella'r amgylchedd** cyntaf yn 2024, fel sy'n ofynnol gan *Ddeddf Amgylchedd y DU 2021*. Mae'n cynnwys targedau anstatudol i amddiffyn 30% o'r tir, y dŵr croyw a'r moroedd ar gyfer natur erbyn 2030; cynyddu brigdwf o leiaf 9% erbyn 2030; a chyhoeddi a gweithredu Cynllun Adfer Natur. Mae **Rhaglen Lywodraethu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon** hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi Cynllun Adfer Natur cyn 2027 i sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn cydymuffurfio â thargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

Yn wahanol i wledydd eraill y DU, nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi nodi unrhyw gynlluniau i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol. Dywed ei chorff llywodraethu amgylcheddol, sef **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd**, fod angen pennu targedau, dangosyddion a fframwaith monitro ar gyfer bioamrywiaeth yng Ngogledd Iwerddon, ynghyd â chynllun cyflawni ag adnoddau, a hynny ar fyrder.

Mae Mark H Durkan, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol, yn cynnig **Bil Aelod Preifat** (Bil yr Amgylchedd ac Adfer Natur) yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon gyda'r nod o gyflwyno fframwaith ar gyfer targedau amgylcheddol sy'n gyfreithiol rwymol, gan gynnwys targedau mewn perthynas â bioamrywiaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar gyfer y Bil arfaethedig rhwng mis Chwefror a mis Mai 2025.

# Egwyddorion amgylcheddol

## Cefndir

Cafwyd **galwadau am egwyddorion amgylcheddol domestig**, i roi arweiniad wrth lunio polisïau, yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r UE. Mae hyn oherwydd nad yw egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi'u trosglwyddo i gyfraith y DU.

Mae **polisi amgylcheddol yr UE wedi'i seilio ar ei egwyddorion amgylcheddol** sy'n anelu at sicrhau safonau amgylcheddol uchel ac integreiddio trefniadau diogelu'r amgylchedd ar draws polisïau a gweithgareddau'r UE.

Mae **Erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd** (TFEU) yn rhestru pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE:

- yr egwyddor atal;
- yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro difrod amgylcheddol yn y ffynhonnell;
- yr egwyddor bod y llygrwr yn talu; ac
- yr egwyddor rhagofalus.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) yn cymhwyso'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu a dehongli deddfwriaeth yr UE. Yn hytrach na bod yn berthnasol yn uniongyrchol i Aelod-wladwriaethau, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn llifo drwy bolisïau a chyfreithiau'r UE.

Er nad yw'r egwyddorion wedi'u diffinio yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU), mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi canllawiau ar gymhwyso'r egwyddor rhagofalus Mae'r egwyddorion hefyd wedi'u diffinio mewn mannau eraill, gan gynnwys mewn cyfreithiau rhyngwladol a chyfraith achosion.

Mae'r egwyddor integreiddio wedi'i hymgorffori yn **Erthygl 11 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE** fel bod yn rhaid i'r gofynion o ran diogelu'r amgylchedd gael eu hintegreiddio wrth ddiffinio a gweithredu polisïau a gweithgareddau'r Undeb, yn enwedig gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Ar ôl gadael yr UE, nid yw Cytuniadau'r UE a'r egwyddorion amgylcheddol yn gymwys yn y DU.

Mae'r DU wedi trosi deddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn gyfraith ddomestig

drwy ***Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018*** (ond nid y Cytuniadau). Cyfeirir at y ddeddfwriaeth hon bellach fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir' ac fe'i datblygwyd yn wreiddiol yng nghyd-destun egwyddorion amgylcheddol yr UE tra roedd y DU yn Aelod-wladwriaeth.

Felly mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn gymwys yn anuniongyrchol drwy gyfraith yr UE a ddargedwir, ond ni chafodd yr egwyddorion eu hunain eu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r Cytuniadau i gyfraith ddomestig y DU.

Mae egwyddorion yr UE hefyd yn weithredol lle y cyfeirir atynt mewn **cyfraith achosion yr UE a ddargedwir**.

**Ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru** i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE wrth ddatblygu polisïau, a hynny yn absenoldeb deddfwriaeth ar ôl Brexit.

**Bwriad Llywodraeth Cymru** oedd deddfu i lenwi'r bwlch ar ôl gadael yr UE gyda'i hegwyddorion amgylcheddol domestig ei hun (a drafodir isod). Wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd ystyried egwyddorion rhyngwladol ac egwyddorion yr UE. Yn ogystal, pwysleisiodd yr angen i ystyried cyd-destun Cymru e.e. egwyddorion rheoli cynaliadwy ar gyfer adnoddau naturiol presennol yn ***Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** a'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ***Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015***.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am **sylwadau** ar yr egwyddorion posibl a sut y gellid eu cymhwyso yn 2019, a sefydlodd Grŵp Gorchwyl hefyd i archwilio'r materion hyn, a chyflwynodd **adroddiad yn 2020**.

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid darparu ar gyfer pedair egwyddor graidd yr UE mewn deddfwriaeth benodol ar gyfer Cymru. Dywedodd y Grŵp y dylai'r rhain gael eu cefnogi gan amcan cyffredinol sy'n nodi uchelgeisiau amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys integreiddio ystyriaethau polisi amgylcheddol ar draws y llywodraeth. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

Arweiniodd y gwaith hwn at y cynigion a geir yn Rhan A o **Bapur Gwyn** y llynedd ar gyfer darpar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), y disgwylir iddo gyflwyno egwyddorion amgylcheddol domestig.

Yn y Bumed Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ddau ymchwiliad i egwyddorion amgylcheddol a llywodraethiant. Roedd yr ymchwiliad cyntaf (**haf 2018**) yn bwrw golwg gychwynnol ar y materion perthnasol. Fe wnaeth yr ail ymchwiliad (**haf 2019**) ddilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2019. Clywodd y Pwyllgor gefnogaeth gref i gadw pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE yng nghyfraith Cymru, ond clywyd hefyd fod angen hyblygrwydd i sicrhau y gall yr egwyddorion esblygu ac y gellir ychwanegu atynt, er enghraifft awgrymwyd yr egwyddor na ddylid caniatáu dirywiad.

## Cynigion Cymru

### Yr egwyddorion

Cynigiodd **Papur Gwyn Llywodraeth Cymru** yr egwyddorion isod ar gyfer y Bil, gan adlewyrchu pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE a chan ychwanegu 'integreiddio':

- yr egwyddor ragofalus;
- yr egwyddor ataliol;
- egwyddor cywiro difrod yn y ffynhonnell;
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu; a'r
- egwyddor integreiddio.

Cynigiodd y byddai'r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cefnogi gan amcan cyffredinol i sicrhau lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol, yn enwedig i gyfrannu at yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae **ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn** yn dweud y bydd yn ystyried ymhellach sut i alinio'r amcan cyffredinol â pholisïau eraill sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

### Canllawiau

Cynigiodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch sut i ddehongli'r egwyddorion amgylcheddol. Byddai gofyniad i ymgynghori ar y canllawiau hyn. Fe wnaeth ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn amlygu barn rhanddeiliaid bod yn rhaid creu canllawiau ar ffurf drafft cyn i'r ddeddfwriaeth gychwyn.

### Cymhwyso'r egwyddorion a chanllawiau

Cynigiodd y Papur Gwyn ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi "sylw dyladwy" i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

Fe wnaeth **ymateb Llywodraeth Cymru** i'r Papur Gwyn dynnu sylw at bryderon rhanddeiliaid ynghylch y term "sylw dyladwy" ac na fyddai'n ddigon cryf i gyflawni amcanion yr egwyddorion.

Ystyriodd Llywodraeth Cymru a ddylid gosod y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion a'r canllawiau ar gyrff cyhoeddus eraill Cymru, yn ogystal â Gweinidogion Cymru. Daeth i'r casgliad, gan y byddai Gweinidogion Cymru yn cymhwyso'r egwyddorion wrth lunio polisïau strategol, y byddai eu heffaith yn rhaeadru i bolisïau gweithredol, ac felly byddai'n anghymesur gosod y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus eraill.

Cafwyd **ymateb cymysg** gan randdeiliaid ynghylch hyd a lled y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion. **Ymatebodd Llywodraeth Cymru** gan ddweud, er ei bod yn bwriadu peidio ag ymestyn y ddyletswydd i gyrff cyhoeddus yn eang, y byddai'n archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y ddyletswydd i rai cyrff mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, wrth ystyried cynlluniau mawr sy'n debygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol.

Byddai gan y corff llywodraethu amgylcheddol a sefydlir o dan yr un Bil, sy'n destun **briff arall gan Ymchwil y Senedd**, bwerau goruchwylio a gorfodi i sicrhau bod y ddyletswydd mewn perthynas â'r egwyddorion yn cael ei chymhwyso.

## Egwyddorion amgylcheddol yng ngwledydd eraill y DU

### Lloegr a Gogledd Iwerddon

Cyflwynodd Deddf Amgylchedd y DU ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i lunio datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol, gyda'r nod o gyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Rhaid i Weinidogion y Goron roi 'sylw dyladwy' i'r datganiad polisi wrth ddatblygu polisïau yn Lloegr. Y ddyletswydd wreiddiol oedd 'rhoi sylw i' ond fe'i newidiwyd i 'rhoi sylw dyladwy i' gyda'r nod o'i chryfhau.

Mae'r pum egwyddor amgylcheddol a restrir yn Neddf Amgylchedd y DU yr un fath â'r rhai a gynigiwyd ar gyfer Cymru.:

- yr egwyddor y dylid integreiddio trefniadau diogelu'r amgylchedd o fewn y gwaith o lunio polisïau;
- yr egwyddor ataliol;
- yr egwyddor ragofalus;
- dylid mynd i'r afael â difrod amgylcheddol yn y ffynhonnell fel blaenoriaeth; ac
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Mae rhai meysydd polisi wedi'u heithrio rhag gorfod cymhwyso'r datganiad polisi, gan gynnwys y meysydd polisi sy'n ymwneud â: y lluoedd arfog, amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol; a threthiant, gwariant neu ddyrannu adnoddau o fewn y llywodraeth. **Yn ystod y gwaith craffu** ar Fil Amgylchedd y DU (a ddaeth yn Ddeddf Amgylchedd y DU maes o law) ceisiodd Aelodau'r gwrthbleidiau ddileu'r eithriadau hyn yn aflwyddiannus.

Wrth ddatblygu'r datganiad polisi, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ar ddatganiad drafft, a gosod y drafft gerbron Senedd y DU. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **Ddatganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol Drafft** ar 10 Mawrth 2021, tra bod y Bil ar ei daith drwy Senedd y DU.

Cyn cyflwyno Bil Amgylchedd y DU yn ffurfiol, cyhoeddwyd rhan gyntaf y Bil, gan gynnwys yr egwyddorion, fel y **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethiant) drafft** ym mis Rhagfyr 2018. Craffwyd ar y Bil drafft gan y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol. Roedd **adroddiad y Pwyllgor** yn nodi y dylai fod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gymhwyso'r egwyddorion, yn ogystal â Gweinidogion y Goron. Dim ond i Weinidogion y Goron y mae'r ddyletswydd yn berthnasol yn y Ddeddf.

Mae Deddf Amgylchedd y DU hefyd yn cynnwys dyletswydd statudol ar **Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon** (DAERA) i gyhoeddi datganiad polisi ar yr egwyddorion amgylcheddol. Mae dyletswydd statudol ar adrannau Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Gweinidogion Llywodraeth y DU (wrth lunio polisïau ar gyfer Gogledd Iwerddon) i roi sylw dyladwy i'r datganiad.

Mae Bil Aelod Preifat Mark H Durkan, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol, yng Ngogledd Iwerddon **yn cynnig** 'egwyddorion amgylcheddol ychwanegol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn'.

## Yr Alban

Yng nghyd-destun yr Alban, mae ***Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021*** ('Deddf Parhad') yn cynnwys yr un pum egwyddor.

Yn wreiddiol, dim ond pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban yn y Bil a fyddai'n dod yn Ddeddf Parhad, ond ychwanegwyd 'integreiddio' yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Gellir dod o hyd i sylwadau ar hyn mewn **briff gan Ganolfan Wybodaeth Senedd yr Alban**. Roedd egwyddorion ychwanegol a awgrymwyd **mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir**, yn ystod sesiynau craffu ar y Bil, yn cynnwys yr egwyddor y dylai fod 'lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol' a 'chyfiawnder amgylcheddol'.

Gall Gweinidogion yr Alban, drwy reoliadau, ychwanegu at, dileu, diwygio neu ddiffinio ymhellach yr egwyddorion a restrir, ond dim ond pan fo angen gwneud hynny at ddibenion adlewyrchu newidiadau i'r egwyddor cyfatebol yng nghyfraith yr UE. Mae hyn yn ymwneud ag ymrwymiad **polisi Llywodraeth yr Alban** i barhau i alinio â safonau'r UE lle y bo'n briodol.

Rhaid i Weinidogion yr Alban roi 'sylw dyladwy' i'r pum egwyddor wrth ddatblygu polisïau. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd hon yn eithrio unrhyw bolisi sy'n ymwneud ag amddiffyn cenedlaethol/argyfwng sifil neu gyllid/cyllidebau.

Yn ogystal, rhaid i 'awdurdod cyfrifol', fel y'i diffinnir yn ***Neddf Asesiad Amgylcheddol (Yr Alban) 2005***, roi sylw dyladwy i'r egwyddorion wrth lunio polisïau sy'n dod o dan y gofyniad i gynnal asesiad amgylcheddol o dan Ddeddf 2005. Felly, mae hwn yn gymhwysiad ehangach na chynigion Cymru a darpariaethau Deddf Amgylchedd y DU lle mai dim ond Gweinidogion sy'n cymhwyso'r egwyddorion/datganiad polisi.

Diben cyffredinol y ddyletswydd i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion yw amddiffyn a gwella'r amgylchedd, a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf Parhad yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban gyhoeddi canllawiau ar yr egwyddorion. Rhaid iddynt gynnwys dehongliad o'r egwyddorion a chysylltiad yr egwyddorion â'i gilydd ac â dyletswyddau amgylcheddol eraill. Cyn cyhoeddi canllawiau, rhaid i Weinidogion yr Alban ymgynghori a gosod y canllawiau drafft gerbron Senedd yr Alban.

# Cwestiynau wrth graffu ar y Bil

Gyda bil arfaethedig Cymru i fod i gael ei gyflwyno yr haf hwn, mae cwestiynau allweddol sy'n codi o archwilio'r ddeddfwriaeth gyfatebol mewn mannau eraill yn y DU, a chynigion y Papur Gwyn, yn cynnwys:

- A fydd y fframwaith bioamrywiaeth yn seiliedig ar brif darged ag iddo gyfyngiad amser, datganiad cenhadaeth ehangach, neu rywbeth arall?
- Sut y bydd y fframwaith a'r targedau'n berthnasol i ymrwymiadau presennol y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang?
- Ym mha feysydd lefel uchel y bydd gofyn i Weinidogion Cymru osod targedau eilaidd?
- Faint o amser y bydd yn ei gymryd, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, i gyflwyno targedau eilaidd?
- Sut y bydd targedau hirdymor a thargedau interim yn cael eu diffinio?
- I ba raddau y bydd y strategaethau a'r cynlluniau gweithredu adfer natur arfaethedig yn deillio o adroddiadau presennol, fel y Cynllun Adfer Natur (NRP) a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP)?
- Sut y bydd y Bil yn delio â chamau gweithredu bioamrywiaeth ar lefel leol i gyflawni'r targedau?
- Pa egwyddorion amgylcheddol fydd yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil?
- A fydd yr egwyddorion amgylcheddol yn berthnasol i Weinidogion yn unig, neu i gyrff cyhoeddus eraill hefyd?
- A fydd yr egwyddorion yn cael eu cymhwyso i bob maes polisi?
- A fydd y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion yn ddigon cryf?
- A fydd canllawiau drafft ar yr egwyddorion ar gael i'r Senedd graffu arnynt cyn i'r ddeddfwriaeth gychwyn?

# Deunydd darllen pellach

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi amrywiaeth o erthyglau a phapurau briffio sy'n trafod materion amgylcheddol a bioamrywiaeth. Rhestrir detholiad o erthyglau perthnasol diweddar isod:

- **Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol: dadansoddiad cymharol**, Mai 2025 – papur briffio ar gynigion Cymru ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol a'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y DU.
- **Yr argyfwng natur: atal colli bioamrywiaeth erbyn 2030 yn "her aruthrol"**, Ebrill 2025 – erthygl a gyhoeddwyd cyn dadl yn y Senedd ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn craffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â cholli natur.
- **COP16: Bioamrywiaeth, o ddinas Cali i Gymru**, Rhagfyr 2024 – erthygl ar yr hyn a gytunwyd yn COP16 a chynnydd Cymru tuag at gyrraedd y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a gytunwyd yn COP15.
- **Cyfnod tyngedfennol ar gyfer polisi amaethyddol: sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i bryderon?**, Hydref 2024 – crynodeb o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n cynnwys cymhellion i ffermwyr sy'n rheoli tir i gefnogi bioamrywiaeth.
- **Y camau nesaf ar y llwybr i adfer natur**, Gorffennaf 2024 – crynodeb o'r Papur Gwyn ar Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth, gan gynnwys sylwadau gan randdeiliaid.
- **Bioamrywiaeth 2023**, Tachwedd 2023 – briff ymchwil yn rhoi trosolwg o gyflwr bioamrywiaeth Cymru, polisïau presennol i'w ddiogelu, a pha gamau gweithredu ychwanegol yr hoffai rhanddeiliaid eu gweld.
- **Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur: A oes angen mwy o gynnydd i gyflawni ymrwymiadau'r llywodraeth?**, Medi 2023 – ymchwiliad i gynnydd Llywodraeth Cymru tuag at ei hamcan llesiant "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn".
- **COP15: beth sydd wedi cael ei gytuno a beth mae hyn yn ei olygu i Gymru**, Ionawr 2023 – erthygl yn crynhoi canlyniadau COP15, yn fwyaf nodedig cytundeb y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.
- **COP15: Amser mynd i'r afael â'r argyfwng natur**, Rhagfyr 2022 – erthygl cyn cynhadledd COP15 yn amlinellu pam roedd rhanddeiliaid yn galw ar frys am gytundeb.